

N am Nadolig (1)

- N** am Nadolig sy'n llawn o swyn
Dydd cofio geni ein Ceidwad mwyn.
- A** am yr angel a ddaeth yn y nos
At y bugeiliaid ger Bethlehem dlos.
- D** am y doethion a ddaeth mor syn
O'r dwyrain pell ar gamelod gwyn.
- O** am yr offrwm, yr anrhegion drud
O aur, thus a myrr i Geidwad byd.
- L** am lusern uwch y preseb o wair
A daflai oleuni i Joseff a Mair.
- I** am yr Iesu, y baban di-nam
A gysgai'n ddibryder ar lin ei fam.
- G** am y gogoniant a rown i Dduw
Am roddi Nadolig i ddynol-ryw.